# RHAGOLWG

**Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.**

**[Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad Dydd Mawrth 13 Chwefror 2007]**

**Penderfyniadau**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6, nad oes angen cyfeirio'r eitemau deddfwriaeth canlynol i bwyllgor pwnc ar gyfer ystyriaeth estynedig:**

- RHEOLIADAU SAFONAU ANSAWDD AER (CYMRU) 2007

- RHEOLIADAU CWOTÂU CYNNYRCH LLAETH (CYMRU) (DIWYGIO) 2007

- RHEOLIADAU TRAMGWYDDAU AMGYLCHEDDOL (COSBAU PENODEDIG) (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) (CYMRU) 2007

- RHEOLIADAU CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU (CYFANSODDIAD) (DIWYGIO) 2007

- RHEOLIADAU DEDDF GALLUEDD MEDDYLIOL 2005 (COLLI GALLUEDD YN YSTOD PROSIECT YMCHWIL) (CYMRU) 2007

- RHEOLIADAU DEDDF GALLUEDD MEDDYLIOL 2005 (EIRIOLWYR GALLUEDD MEDDYLIOL ANNIBYNNOL) (CYMRU) 2007

- **GORCHYMYN DEDDF GALLUEDD MEDDYLIOL (CYCHWYN) (CYMRU) 2007**

- RHEOLIADAU DEDDF GALLUEDD MEDDYLIOL 2005 (CORFF PRIODOL) (CYMRU) 2007

- GYMERADWYO RHEOLIADAU GORCHMYNION RHEOLI CWN (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) (CYMRU) 2007

- GORCHYMYN RHEOLI CWN (HEB FOD YN GYMWYS I DIR DYNODEDIG) (CYMRU) 2007

**Y Datganiad Busnes Drafft**

Toriad Hanner Tymor 19-23 Chwefror 2007

Dydd Mawrth 27 Chwefror a dydd Mercher 28 Chwefror 2007

Dydd Mawrth 6 Mawrth a dydd Mercher 7 Mawrth 2007

Dydd Mawrth 13 Chwefror a dydd Mercher 14 Chwefror 2007

Dydd Mawrth 27 Chwefror 2007

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan Jane Hutt, y Gweinidog â chyfrifoldeb dros Gyfle Cyfartal: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad y Pwyllgor Cyfle Cyfartal: Gwasanaethau a Ddarperir i Bobl Ifanc Anabl (30 munud)**

Trafodwyd yr Adroddiad yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 16 Ionawr 2007.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25 (1 munud)**

Ø **Gorchymyn Tir Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2007**

Mae’r Gorchymyn hwn yn nodi’r eithriadau dros dro i’r gwaharddiad a orfodir gan Ddeddf Tir Comin 2006 ar hollti hawliau tir comin oddi wrth y tir dan sylw.

Ø **Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2007**

Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd 1995 yng Nghymru i weithredu Cyfarwyddeb y Comisiwn 2006/33/EC, sef y pedwerydd diwygiad i Gyfarwyddeb 95/45/EC, sy’n gosod meini prawf (manylebau) penodol o ran purdeb lliwiau a ddefnyddir mewn bwydydd ledled yr UE.

Nod y Gyfarwyddeb yw diwygio’r meini prawf o ran purdeb ar gyfer dau liw: Sunset Yellow FCF (E110) a Thitaniwm Deuoscid (E 171). Mae Sunset Yellow FCF yn lliwydd y gellir ei ychwanegu at fwydydd i beri i’r bwyd newid lliw. Mae’n llifyn tar glo synthetig ac azo sy’n ddefnyddiol mewn bwydydd a epleswyd y mae’n rhaid eu cynhesu. Caiff ei ddynodi gan y rhif E, E110, a gall achosi adwaith alergol. Mae Sunset Yellow FCF weithiau’n bresennol mewn diod ffrwythau oren a diodydd meddal, marsipan, Swiss roll, jam bricyll, losin, pecynnau o gawl ac mewn pecynnau o saws. Mae Titaniwm Deuocsid yn fwyn gwyn naturiol a gaiff ei ddynodi gan y rhif E, E171. Caiff ei ddefnyddio fwyaf fel llifyn gwyn mewn bwyd, ac mae’n bresennol mewn tabledi a chapsiwlau, caws colfran a Mozzarella, past dannedd a hefyd mewn losin, lle caiff ei ddefnyddio’n aml fel ffin rhwng gwahanol liwiau.

**Cynnig i drafod y tair eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (30 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar**

**gyfer Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2007**

Wrth bennu bil treth gyngor ar gyfer annedd, cymrir yn ganiataol bod dau oedolyn neu fwy yn byw yno. Os mai un oedolyn yn unig sy'n byw yno, rhoddir gostyngiad. Ni chyfrir gweithwyr gofal penodol sy'n rhoi gofal neu gefnogaeth drwy gysylltiad â'r Goron, ag elusen neu ag awdurdod lleol wrth gyfrif nifer yr oedolion sy'n byw mewn annedd wrth benderfynu a ddylid rhoi gostyngiad. Ar hyn o bryd, ni chaiff gofalwyr o'r fath, sy'n ennill £36 yr wythnos neu lai, eu hystyried. Bydd y Rheoliadau hyn yn cynyddu'r ffigur hwnnw i £44, yn unol â chwyddiant.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2007**

Bydd yr Offeryn hwn yn diwygio'r Rheoliadau presennol sy'n ymwneud â'r trothwyon ariannol perthnasol wrth bennu swm y didyniadau oddi wrth enillion wrth ddefnyddio Gorchymyn Atafaelu Enillion i adennill treth gyngor nas talwyd. Ar ôl i orchymyn dyled gael ei ddyfarnu, gall awdurdodau bilio gyfarwyddo cyflogwyr i adennill y dreth gyngor nas talwyd yn uniongyrchol o gyflog gweithiwr. Mae'r swm y dylai cyflogwyr ei ddidynnu o gyflog gweithiwr o dan Orchymyn Atafael Enillion (AEO) wedi'i bennu yn y Rheoliadau, ac mae'n dibynnu ar lefel enillion net y gweithiwr. Bydd y Rheoliadau hyn yn cynyddu lleiafswm yr enillion yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Cyfartalog Enillion.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) (Diwygio) (Cymru) 2007**

Wrth bennu bil treth gyngor ar gyfer annedd, cymrir yn ganiataol bod dau oedolyn neu fwy yn byw yno. Os mai un oedolyn yn unig sy'n byw yno, rhoddir gostyngiad. Ni chaiff prentisiaid eu hystyried wrth gyfrif nifer yr oedolion sy'n byw mewn cartref wrth benderfynu a ddylid rhoi gostyngiad. Ar hyn o bryd, ni chyfrir prentis sy'n ennill £160 yr wythnos neu lai, a rhaid i'r prentis fod yn ennill llai o lawer na'r hyn y byddant yn debygol o'i ennill pe bai ef/hi wedi ennill y cymhwyster dan sylw. Bydd y Gorchymyn hwn yn cynyddu'r isafswm a enillir i £195 yr wythnos, yn unol â chwyddiant, a bydd yn dileu'r gofyniad i ennill llai o lawer na'r cyflog y disgwylir i'r prentis ei ennill yn y dyfodol. Bydd hefyd yn ei gwneud yn glir y dylid cynnwys lwfansau â chyflog wrth asesu faint y mae prentis yn ei ennill.

Bydd y Gorchymyn hwn hefyd yn newid y diffiniadau o 'sefydliadau addysgol penodedig',

‘addysg bellach’ a ‘chynorthwywyr ieithoedd tramor’ er mwyn cymhwyso’r diwygiadau a wnaed gan ddeddfwriaeth a wnaed ers Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Gostyngiad) 1992 (Gorchymyn 1992). Mae diwygiad pellach yn cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y corff sy’n achredu cymwysterau yng Nghymru a’r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm sy’n achredu cymwysterau yn Lloegr.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cod Ymarfer (Tai Ymddeol Preifat) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae’r Gorchymyn yn cymeradwyo Cod Ymarfer y Gymdeithas Rheolwyr Tai Ymddeol (ARHM) (ac eithrio atodiadau 4-6) ar gyfer rheoli tai ymddeol preifat. Mae’r Cod yn nodi’r hyn a ystyrir yn arferion gorau o ran rheoli yn y sector tai ymddeol preifat, yn ogystal ag amlygu unrhyw ofynion deddfwriaethol y mae angen i reolwyr gydymffurfio â hwy.

Nid yw atodiadau 4 i 6 y Cod wedi’u cymeradwyo eto am nad ydynt yn berthnasol at ddibenion adran 87 o Deddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae’r Rheoliadau hyn yn hepgor cyfeiriadau at “grant arbennig perthnasol” gan nad oes unrhyw grantiau arbennig yn cael eu diffinio fel grantiau arbennig perthnasol ar gyfer y flwyddyn ariannol honno. Mae’r Rheoliadau hyn hefyd yn ychwanegu diffiniadau o’r symiau sy’n daladwy mewn perthynas â grant cynnal refeniw ac ardrethi annomestig wedi’u hailddosbarthu yn adrannau 32, 33, 43 a 44 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Maent hefyd yn diffinio “ariannu gwaelodol” yn adran 43 o Ddeddf 1992 ar gyfer awdurdodau’r heddlu yng Nghymru yn unig ar gyfer y flwyddyn ariannol sy’n dechrau ar 1 Ebrill 2007. Ychwanegir yr ariannu gwaelodol i sicrhau bod cynnydd cyffredinol o 3.6% mewn cyllid canolog ar gyfer Awdurdodau’r Heddlu, o’i gymharu â’r llynedd.

- **Dadl a enwebwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (45 munud)**

**Dydd Mercher 28 Chwefror 2007**

- **Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (30 munud)**

- CYNNIG I GYMERADWYO RHEOLIADAU CYNHYRCHION DIOGELU PLANHIGION (DIWYGIO) 2007 O DAN REOL SEFYDLOG 25 RHAN 3 (15 MUNUD)

Bydd y cyd-Reoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2005 (fel y'u diwygiwyd), sy'n gweithredu Cyfarwyddeb Cyngor 91/414/EEC yng Nghymru a Lloegr, sy'n trafod y broses o roi cynhyrchion diogelu planhigion ar y farchnad.

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2006 i Brif Weinidog Cymru (10 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Hapchwarae 2005 i Brif Weinidog Cymru (10 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 i Brif Weinidog Cymru (10 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo newidiadau yng Nghyllideb Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn ystod y flwyddyn (5 munud)**

- **Cynnig i gymeradwyo newidiadau yn y Prif Grwpiau Gwariant yn ystod y flwyddyn (10 munud)**

- **Dadl am Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Mesur Iechyd Meddwl (60 munud)**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 6 Mawrth 2007**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Cynnig I gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25(1 munud)**

Ø **Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Gwynedd) 2007**

Bydd y Gorchymyn hwn yn galluogi Cyngor Gwynedd i orfodi cyfyngiadau parcio wedi'i ddad-droseddoli o fewn Sir Gwynedd. Byddai'n berthnasol i bob priffordd gyhoeddus ac eithrio Cefnffordd yr A55, gan gynnwys ffyrdd ymuno ac ymadael. Byddai hyn yn golygu y câi troseddau na ellid eu hardystio, fel parcio ar linellau melyn dwbl, eu gorfodi drwy gyfraith sifil yn hytrach na chyfraith droseddol. Byddai'r ddyletswydd orfodi yn cael ei throsglwyddo o Heddlu'r Gogledd i'r Cyngor.

- **Rheoliadau Ymchwiliadau Lleol, Ymchwiliadau Cymwys a Gweithdrefnau Cymwys (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2007**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi:

- cynnydd yn y swm dyddiol safonol a godir gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar awdurdodau lleol am y gwasanaethau a ddarperir gan Arolygwyr Cynllunio wrth gynnal ymchwiliadau cyhoeddus i faterion amrywiol lle mae'r awdurdod lleol yn gofyn am gydsyniad, cadarnhad ac ati gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cynyddir y swm dyddiol £77, o £645 i £722, mewn perthynas ag ymchwiliad sy'n agor ar 1 Ebrill 2007 neu wedi hynny;

- bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn codi swm dyddiol safonol newydd ar awdurdodau lleol am y gwasanaethau a ddarperir gan Arolygwyr Cynllunio wrth gynnal Archwiliadau Annibynnol i Gynlluniau Datblygu Lleol awdurdodau cynllunio lleol. Y swm dyddiol fydd £640 mewn perthynas ag Archwiliad sy'n agor ar 1 Ebrill 2007 neu wedi hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn cadw'r swm dyddiol safonol cyfredol, sef £679, ar gyfer Ymchwiliadau Cynlluniau Datblygu Unedol ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer ymchwiliadau o ran Parthau Cynllunio Symlach ac ystyriaeth i wrthwynebiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu'r darpariaethau sy'n ymwneud â symiau dyddiol safonol, yn

Rheoliadau Ffïoedd Ymchwiliadau (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2002 a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Costau Ymchwiliadau etc.) (Swm Dyddiol Safonol) (Cymru) 2005.

- Ø RHEOLIADAU SAFONAU ANSAWDD AER (CYMRU) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn trosi Cyfarwyddeb y Cyngor 2004/107/EC (y bedwaredd Epil Gyfarwyddeb) i ddeddfwriaeth ddomestig yng Nghymru, sy’n ymwneud â phresenoldeb arsenig, cadmiwm, mercwri, nicel a hydrocarbonau polysyclig aromatig (PAHau) yn aer yr amgylchedd. Mae PAHau yn grwp o tua 10,000 o gyfansoddion cemegol. Mae’r rhan fwyaf o PAHau yn yr amgylchedd yn deillio o losgi’n rhannol ddeunyddiau sy’n cynnwys carbon, megis olew, pren a glo.

Maent hefyd yn dirymu ac yn cyfnerthu’r Rheoliadau presennol, hy, Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2002, Rheoliadau Ansawdd Aer (Osôn) (Cymru) 2003, a Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2005.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Plant (Perfformiadau) (Diwygio) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Plant (Perfformiadau) 1968 mewn perthynas â phlant 9 oed a throsodd er mwyn gwneud y rheolau sy’n llywodraethu perfformiadau gan blant yn llai cyfyngol. Maent yn diddymu’r cyfyngiadau ar nifer y perfformiadau y gall plentyn gymryd rhan ynddynt mewn blwyddyn; yn newid yr oedran y mae’n rhaid i blant ei gyrraedd cyn y gallant weithio; ac yn ymestyn yr amserau a’r oriau y gallant weithio neu fod ar gael ar gyfer perfformiadau.

Mae’r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i’r awdurdod trwyddedu gael adroddiad gan bennaeth ysgol y plentyn ac i fetronau (hebryngwyr) ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelu plant.

- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Mabwysiadu a Phlant 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007 (15 munud)**

Mae’r Gorchymyn hwn yn gweithredu adran 13 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2006 ac yn rhoi’r pwer i’r Cynulliad godi ffi ar y rheini sy’n mabwysiadu am wasanaethau a ddarperir o safbwynt Mabwysiadu Rhyngwladol. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar b’un a yw nifer yr achosion o fabwysiadu bob blwyddyn yn aros ar yr un lefel ai peidio. Ar hyn o bryd, mae tua 10 o achosion bob blwyddyn, ond fe allai’r nifer hwn gynyddu, ac fe fyddai hynny’n golygu y byddai’r pwer i godi ffi yn cael ei arfer. Ar hyn o bryd, ni cheir cynlluniau i godi ffi am wasanaethau ar y rheini sy’n mabwysiadu’n rhyngwladol.

**Cynnig i drafod y tair eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)**

- CYNNIG I GYMERADWYO RHEOLIADAU TRAMGWYDDAU AMGYLCHEDDOL (COSBAU PENODEDIG) (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) (CYMRU) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn pennu o fewn pa ystod y gall awdurdodau lleol yng Nghymru osod lefel yr hysbysiadau cosb benodedig ar lefel leol, ar gyfer tramgwyddau amgylcheddol penodol, megis sbwriel a baeddu gan gwn.

- CYNNIG I GYMERADWYO RHEOLIADAU GORCHMYNION RHEOLI CWN (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) (CYMRU) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn sefydlu system newydd ar gyfer rheoli cwn. Maent yn pennu y gall awdurdodau lleol a chynghorau cymuned (a ddiffinnir fel awdurdodau sylfaenol neu eilaidd yn y drefn honno) ddefnyddio gorchmynion rheoli cwn i gynnwys y pum tramgwydd a nodir isod:

- methu â chodi baw cwn;

- peidio â chadw ci ar dennyn;

- peidio â rhoi ci ar dennyn, a’i gadw ar dennyn pan fod swyddog ag awdurdod yn rhoi cyfarwyddiadau i wneud hynny;

- caniatáu i gi fynd ar dir y mae cwn wedi’u gwahardd oddi arno; a

- mynd â mwy na nifer penodedig o gwn ar dir.

Mae cosb benodedig yn berthnasol am dorri Gorchymyn rheoli cwn. Y swm rhagosodedig yw £75, fel a bennwyd gan Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. Fodd bynnag, bydd awdurdod lleol yn gallu pennu’r swm o fewn ystod benodedig rhwng £75 a £150. Os caiff unigolyn ei erlyn am dramgwyddo, bydd yn agored i ddirwy, heb fod yn uwch na lefel 3, sef £1,000.

- CYNNIG I GYMERADWYO GORCHYMYN RHEOLI CWN (HEB FOD YN GYMWYS I DIR DYNODEDIG) (CYMRU) 2007

Mae’r Gorchymyn hwn yn pennu’r mathau o dir na chânt eu cynnwys yn y Gorchmynion Rheoli Cwn. Mae dau fath o dir y mae’r Gorchymyn yn pennu nad ydynt yn destun y Gorchmynion rheoli cwn, sef yr holl ffyrdd a phriffyrdd, a thir y Comisiwn Coedwigaeth. Gall Gorchmynion Rheoli Cwn gynnwys y pum tramgwydd a nodir isod:

- methu â chodi baw cwn;

- peidio â chadw ci ar dennyn;

- peidio â rhoi ci ar dennyn, a’i gadw ar dennyn, pan fod swyddog ag awdurdod yn rhoi cyfarwyddiadau i wneud hynny;

- caniatáu i gi fynd ar dir y mae cwn wedi’u gwahardd oddi arno; a

- mynd â mwy na nifer penodedig o gwn ar dir.

- **Slot wedi’i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**

- **Dadl am brosiect craffu y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Trefniadau Etholiadol yng Nghymru (60 munud)**

**Dydd Mercher 7 Mawrth 2007**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**

- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (30 munud)**

- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac yn ôl yr hyn a nodwyd ar y rhestr o gyfrifoldebau’r Gweinidogion (30 munud)**

- **CYNNIG I GYMERADWYO’R PENDERFYNIAD AR GYNLLUNIAU EFFEITHLONRWYDD YNNI CARTREF (CATEGORÏAU GWAITH A’R UCHAFSYMIAU GRANT) (CYMRU) (DIWYGIO) 2007 O DAN REOL SEFYDLOG 29.3 (III) (15 munud)**

Bydd y Penderfyniad yn caniatáu i Bartneriaeth Eaga (rheolwr y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yng Nghymru) ddarparu gwres canolog a gaiff ei yrru gan lo fel dewis o dan y Cynllun Effeithiolrwydd Ynni Cartref, i’r cartrefi hynny yr ystyrir eu bod yn ‘anodd eu cynhesu’. Yn gyffredinol, nid yw’r cartrefi hyn wedi’u cysylltu â’r prif rwydwaith nwy, ac nid oedd modd iddynt gael cymorth gan y Cynllun yn y gorffennol.

- **Dadl ar Gyflogaeth gan y Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru (60 munud)**

- **Dadl fer a ohiriwyd o 17 Ionawr 2007 (30 munud)**

**NDM3398 Sandy Mewies (Delyn): "O Geiniog i Geiniog" – Pam fod llythrennedd ariannol yn bwysig.**

- **Y ddadl fer (30 munud)**

**<u>Dydd Mawrth 13 Mawrth 2007</u>**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Y Datganiad Busnes (10 munud)**

- **Datganiad gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon o Bêl-droed yng Nghymru (30 munud)**

- CYNNIG I GYMERADWYO O DAN REOL SEFYDLOG 24.25 (1 MUNUD)

  Ø RHEOLIADAU CWOTÂU CYNNYRCH LLAETH (CYMRU) (DIWYGIO) 2007

  Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n berthnasol i'r flwyddyn gwota gyfredol (2006/07), yn diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005 i drosi newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth y Gymuned Ewropeaidd sy'n llywodraethu'r drefn o ran cwotâu llaeth.

**Cynnig i drafod y pedair eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (15 munud)**

- CYNNIG I GYMERADWYO RHEOLIADAU DEDDF GALLUEDD MEDDYLIOL 2005 (COLLI GALLUEDD YN YSTOD PROSIECT YMCHWIL) (CYMRU) 2007

  Mae'r Rheoliadau hyn yn mynd i'r afael â phrosiectau ymchwil a oedd wedi cychwyn cyn i adran 30 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 gael ei rhoi ar waith, y gallent gael eu heffeithio pe bai'r unigolion sy'n destun gwaith ymchwil yn colli galluedd yn ystod prosiectau o'r fath. Mae'r Rheoliadau hyn yn cydbwyso pwysigrwydd y broses o gynnal gwaith ymchwil yn gywir a thrin pobl â diffyg galluedd a gofalu amdanynt, â'r angen i ddiogelu eu teimladau, ac i barchu'r dymuniadau a'r teimladau y maent wedi'u mynegi yn y gorffennol ac ar y pryd.

- CYNNIG I GYMERADWYO RHEOLIADAU DEDDF GALLUEDD MEDDYLIOL 2005 (EIRIOLWYR GALLUEDD MEDDYLIOL ANNIBYNNOL) (CYMRU) 2007

Bydd y Rheoliadau hyn yn sefydlu’r dull o weithredu’r gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA), a grëwyd gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.

- CYNNIG I GYMERADWYO GORCHYMYN DEDDF GALLUEDD MEDDYLIOL (CYCHWYN) (CYMRU) 2007

Bydd y Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn bosibl i Gymru sefydlu dull o weithredu’r gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA), a grëwyd gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Bydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl i gychwyn y fframwaith statudol ar gyfer Ymchwil ar bobl analluog, drwy gydnabod cyrff priodol i gymeradwyo gwaith ymchwil ar gyflyrau sy’n amharu, ac i ganiatáu defnydd parhaus o ddeunyddiau a gwybodaeth a gafwyd gan bobl sy'n destun gwaith ymchwil pe baent yn colli galluedd, yn amodol ar fodloni amddiffyniadau penodol.

- CYNNIG I GYMERADWYO RHEOLIADAU DEDDF GALLUEDD MEDDYLIOL 2005 (CORFF PRIODOL) (CYMRU) 2007

Mae Adrannau 30 i 34 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer gwaith ymchwil sy’n ymwneud â phobl nad oes ganddynt ddigon o alluedd i gydsynio i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil. Yn benodol, mae adrannau 30 i 33 yn darparu mecanwaith ar gyfer cymeradwyo ymchwil ar faterion sy’n gysylltiedig ag amharu neu darfu ar swyddogaeth yr ymennydd. Mae’r Rheoliadau hyn yn darparu y bydd Pwyllgorau Moeseg Ymchwil y GIG (PMY) sydd ag arbenigedd perthnasol wrth gynghori ar foeseg ym maes ymchwil ymwthiol, yn cael eu cydnabod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel y ‘corff priodol’.

- CYNNIG I GYMERADWYO RHEOLIADAU CYNGOR ADDYSGU CYFFREDINOL CYMRU (CYFANSODDIAD) (DIWYGIO) 2007 (15 MUNUD)

Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

(Cyfansoddiad) 1999, fel y'u diwygiwyd, sy'n llywodraethu aelodaeth y Cyngor a'r trefniadau ar gyfer ethol a phenodi aelodau.

- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (80 munud)**

**<u>Dydd Mercher 14 Mawrth 2007</u>**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (30 munud)**

- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**

- **Dadl ar Adolygiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o Wasanaethau Canser (60 munud)**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**

- **Yr ail ddadl ar Gynnig Tamsin Dunwoody ar gyfer Is-ddeddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 31 (45 munud)**

Cefnogodd y Cynulliad y cynnig gwreiddiol a oedd yn destun dadl ar 14 Tachwedd 2006:

I gynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn gweithredu o dan Reol Sefydlog 31.2, yn cefnogi mewn egwyddor, ddeddfwriaeth i:

Ddarparu ar gyfer archwilio Practisau Deintyddol Preifat yng Nghymru a chyflwyno mecanweithiau ar gyfer adrodd ar unrhyw ganfyddiadau.

- **Y ddadl fer (30 munud)**